|---|---|---|---|---|---|
| VOC captured on PPN in line with AWARE principles | 1041 | 300 | 803 | 441 | 11 |
| VOC captured on OEL but not following AWARE principles | 21 | 4 | 17 | 15 | 2 |
| VOC captured on OEL in line with AWARE principles | 113 | 28 | 99 | 55 | |
| VOC captured on PPN but not following AWARE principles | 96 | 26 | 72 | 55 | 6 |
| VOC not captured as OIC has not listed children, despite the victim/AO having a child | 67 | 22 | 35 | 48 | |
| VOC not captured in any format and child not present | 189 | 51 | 184 | 108 | 2 |
| VOC not captured in any format and child present | 56 | 9 | 34 | 32 | |

## Hysbysiad amddiffyniad yr heddlu yn ymwneud â phlentyn sy’n wynebu risg – llais y plentyn

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, cynhyrchwyd 52 o adroddiadau wythnosol plant mewn angen. Mae cafeat yn cynnwys data coll am wythnosau pan na chwblhawyd adroddiad. Dangosodd 24 wythnos gyfradd o 100% pan gofnodwyd hysbysiadau amddiffyniad yr heddlu yn cynnwys llais y plentyn (hysbysiad amddiffyniad yr heddlu yn ymwneud â phlentyn sy’n wynebu risg) wedi eu cipio mewn ffordd ddigonol a’u cofnodi mewn ffordd gywir.



## Cwestiwn: A ydyn ni'n ymateb yn effeithiol i oedolion a phlant sydd ar goll?

Nifer yr unigolion ar goll


Mae data 2024 (Ionawr–Rhagfyr) yn dangos bod 2,334 o unigolion wedi cael eu hadrodd fel 'unigolion ar goll' i Heddlu Dyfed-Powys, 740 o oedolion, a 1,594 o blant. Yn 2025, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr adroddiadau am unigolion ar goll i 2,050. Mae nifer yr oedolion wedi cynyddu i 808, tra bod nifer y plant wedi gostwng i 1,242. O'r adroddiadau am blant, cynhaliwyd 277 o drafodaethau strategaeth ag asiantaethau partner i fynd i'r afael â'r risg pan nodwyd eu bod mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae ein proses o gael ôl-drafodaeth â phlant sydd wedi bod ar goll dair gwaith yn ystod 12 mis (Llamau) wedi cynorthwyo i leihau'r galw am blant sydd ar goll. Cynhaliwyd 383 o sesiynau dadfriffio yn 2025.

Mae nifer yr oedolion ar goll wedi cynyddu, ac o'r herwydd mae proses wedi ei gweithredu lle mae pob oedolyn yr adroddir amdano fel unigolyn ar goll ar fwy na thri achlysur yn cael ei ystyried ar gyfer cynllun Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau (POP).

Data plant ar goll ar gyfer y cyfnod 3 mis rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror 2026

- Mae'r heddlu wedi cofnodi 344 o achosion o blant ar goll.
- Roedd 83% yn ymwneud ag achosion o blant yn mynd ar goll sawl gwaith.
- Roedd 38% o'r achosion o blant yn mynd ar goll yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal.



Sir Benfro sydd â'r nifer uchaf o adroddiadau o blant ar goll, gyda 132 o achosion wedi eu cofnodi. Mae 14% o'r rheini'n blant sy'n derbyn gofal, a oedd i gyd wedi bod ar goll o'r blaen. Roedd y ffigurau'n gyson ar draws pob mis.

Cofnododd Sir Gaerfyrddin 118 o achosion o blant ar goll yn ardal yr heddlu, ac roedd 48% o'r achosion yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, sef y ffigur uchaf. Roedd pob un ohonynt yn ymwneud â phlant a oedd wedi bod ar goll o'r blaen. Roedd y ffigurau'n gyson ar draws pob mis.

Roedd gan Bowys 78 o achosion o blant ar goll, ac roedd canran uchel o'r plant hynny yn blant sy'n derbyn gofal (35%), 12% ohonynt yn blant a oedd wedi bod ar goll am y tro cyntaf, a 48% yn achosion o blant a oedd wedi bod ar goll o'r blaen. Bu gostyngiad yn nifer yr achosion o blant ar goll yr adroddwyd amdanynt ym mis Rhagfyr, gydag 11 unigolyn yn mynd ar goll yr adroddwyd amdanynt, ond mae mis Ionawr a mis Chwefror wedi aros yn gyson.

Cofnododd Ceredigion 11 o achosion o blant ar goll; roedd 3% yn blant sy'n derbyn gofal, ac roedd pob un yn blentyn a oedd wedi bod ar goll o'r blaen, ac roeddent yn gyson ar draws pob mis.

Mae cydlynydd Unigolion ar Goll yn y Ganolfan Bregusrwydd wedi cydnabod bod cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yr adroddir eu bod ar goll, ac felly o ganlyniad mae wedi cynllunio i gynnal cyfarfod gyda phob rheolwr cartref gofal, yn ogystal â'r pwyntiau cyswllt unigol, rhingylliaid timau plismona ac atal bro, neu arolygwyr. Mae'r broses hon eisoes yn mynd rhagddi ym Mhowys. Bydd hi'n trafod y canlynol:

- Yr hyn y mae arnom ei angen gan y cartrefi gofal (arolygon cartrefi gofal).
- Yr hyn y mae canllawiau Diogelu Cymru ynghylch unigolion sy'n mynd ar goll o gartrefi gofal yn nodi yw cyfrifoldebau'r cartrefi gofal.
- Unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw.

Bu ymgynghoriad â Sir Gaerfyrddin ynghylch plentyn sy'n derbyn gofal sy'n mynd ar goll yn rheolaidd o'r tu allan i'r sir, gan edrych ar sut y gallwn ymgysylltu â chyfarfodydd prif weithredwr awdurdod lleol Caerdydd i roi cynllun ar waith.

## Cwestiwn: A ydyn ni'n cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru?

Trafodaeth strategaeth[2]

Ceir y data o ganfyddiadau taenlen copi gweithredol trafodaethau strategaeth yr Uned Gyfeirio Ganolog (o fis Awst 2025) a hen daenlen adrodd trafodaethau strategaeth yr Uned Gyfeirio Ganolog.

Mae 31 o achosion wedi eu marcio fel 'oedolyn a phlentyn' o dan bwnc pryder, nad ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl isod.

| Trafodaethau strategaeth (Ebrill 2025–Mawrth 2026) | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Nifer y trafodaethau strategaeth plant | 3,186 |
| Nifer y trafodaethau strategaeth oedolion | 1,015 |
| Nifer y trafodaethau strategaeth camfanteisio | 522 |
| Nifer y trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd o fewn un diwrnod gwaith | 774 |
| Nifer yr ymweliadau Adran 47 ar y cyd | 1,219 |

## Cwestiwn: A ydym yn cydymffurfio â'r canllawiau mewn perthynas â'n trafodaethau a'n cyfarfodydd strategaeth?

Trafodaethau strategaeth a gynhaliwyd o fewn 24 awr

Data ar y daenlen a gadwyd o fis Awst 2025 i fis Mawrth 2026




- 2,786 o drafodaethau strategaeth a gynhaliwyd ledled yr heddlu
- 96% wedi ei gwblhau o fewn 24 awr
- 4% (129) heb eu cwblhau o fewn 24 awr

[2] Data wedi eu cyrchu o drafodaeth strategaeth yr Uned Gyfeirio Ganolog (o Awst 2025) ar 8 Ebrill 2026.


O’r 4%, ni chafodd 129 eu cwblhau o fewn 24 awr:





- 81% – 105 yn achosion o oedi gan yr asiantaethau partner
    - Powys 48%, Sir Gaerfyrddin 34%, Sir Benfro 11%, Ceredigion 8%
- 19% – 24 oediad gan yr heddlu. Roedd 19 o oediadau’r heddlu ym mis Mawrth 2026 oherwydd staffio, pan oedd gennym un swydd ditectif ringyll cyfwerth ag amser llawn yn wag, ac un swyddog o’r fath ar gwrs.

Niferoedd MARAC dyddiol

Nifer yr achosion a drafodwyd yn y drafodaeth ddyddiol rhwng mis Ebrill 2025 a mis Gorffennaf 2025.




O fis Awst 2025 ymlaen, symudodd MARAC i ffwrdd o'r broses Trafodaeth Ddyddiol a'r MARAC llawn. Rydym bellach yn cynnal cynadleddau MARAC yn ddyddiol. Gweler isod nifer yr achosion a drafodwyd yn y MARAC dyddiol rhwng mis Awst 2025 a mis Mawrth 2026.



## Cwestiwn: A ydyn ni'n amserol ac yn effeithiol yn ein trefniadau diogelu amlasiantaeth o ran oedolion agored i niwed?

Data ar amseroldeb MARAC dyddiol

Mae'r data isod yn adlewyrchu nifer y diwrnodau, ar gyfartaledd, rhwng y dyddiad y daeth yr atgyfeiriad MARAC i law, a dyddiad y drafodaeth yng nghynadleddau MARAC rhwng mis Ebrill 2025 a mis Gorffennaf 2025.

| Uned reoli sylfaenol | Diwrnodau ar gyfartaledd |
|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin** | 4.1 |
| **Ceredigion** | 4.4 |
| **Sir Benfro** | 4.3 |
| **Powys** | 4.4 |

O fis Awst 2025 ymlaen, gweithredwyd amserlen rhestru newydd i gynorthwyo cyswllt y cynghorydd annibynnol ar drais domestig â'r dioddefwr cyn y drafodaeth MARAC. Mae'r amserlen hon rhwng tri a saith diwrnod. Gweler isod y data sy'n adlewyrchu nifer y diwrnodau, ar gyfartaledd, rhwng y dyddiad y daeth yr atgyfeiriad MARAC i law, a dyddiad y drafodaeth yn y MARAC dyddiol rhwng mis Awst 2025 a mis Mawrth 2026.

| Uned reoli sylfaenol | Diwrnodau ar gyfartaledd |
|---|---:|
| **Sir Gaerfyrddin** | 5.2 |
| **Ceredigion** | 4.9 |
| **Sir Benfro** | 4.8 |
| **Powys** | 5 |


Data grŵp llywio'r Rhaglen Ymyrraeth Stelcio – nifer yr ymchwiliadau a adolygwyd, a gymerwyd i'r Rhaglen Ymyrraeth Stelcio, a chanlyniadau

**Data Rhaglen Ymyrraeth Stelcio Mai 2025–Ebrill 2026**

| | |
|---|---|
| Nifer yr achosion wedi bodloni meini prawf y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio | 799 |
| Nifer yr achosion a drafodwyd cyn cyfarfod y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio | 436 |
| Nifer yr achosion a drafodwyd yn y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio (nid yw'n cynnwys data mis Ebrill gan y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar 16 Ebrill 2026 cyn y rhaglen). | 107 |
| Heb ei drafod cyn y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio (wedi ei gau cyn y rhaglen) | 256 |

**Canlyniad y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio**

| | |
|---|---|
| Nifer yr achosion a drafodwyd yng nghyfarfod y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio | 107 |
| Cytunwyd yn y Rhaglen Ymyrraeth Stelcio i symud ymlaen â'r Gorchymyn Diogelu rhag Stelcio | 39 |




## Cwestiwn: A ydyn ni'n amserol ac yn effeithiol yn ein trefniadau diogelu amlasiantaeth o ran oedolion agored i niwed?

Sicrhau ansawdd – diweddariadau archwiliadau MARAC

**Archwilio'r broses MARAC:**
10 archwiliad y mis sy'n adolygu proses, amseroldeb, ac ansawdd prosesau MARAC. I gynnwys archwiliad o amseriadau rhestriadau, archwiliad i ganfod a ydyw'r cofnodion wedi eu cwblhau, a ydynt yn gywir, ac i ganfod a oes camau gweithredu wedi eu cofnodi.

**Archwiliad cyfarfod MARAC:**
8 archwiliad y mis, sy'n adolygu ansawdd cadeirio, adroddiadau'r heddlu, gweithredoedd yr heddlu, tactegau, amseroldeb, presenoldeb, a'r broses o rannu gwybodaeth ystyrlon.

**Archwiliad atgyfeiriadau MARAC:**
10 archwiliad y mis o atgyfeiriadau a wrthodwyd i sicrhau bod canllawiau a throthwyon yn cael eu cymhwyso'n gywir.

*Mae canfyddiadau'r archwiliad yn rhoi hyder bod prosesau MARAC yn amserol ac yn cydymffurfio ag amserlenni amlasiantaeth lleol y cytunwyd arnynt.*

*Mae materion thematig yn cael sylw drwy strwythurau llywodraethu priodol (Grŵp Llywio MARAC). Mae enghreifftiau yn cynnwys dewislen o dactegau sy'n ofynnol gan bob asiantaeth er budd cadeiryddion MARAC, camau gweithredu a fydd yn fwy cadarn ac, yn bwysicach fyth, yn fwy ystyrlon.*

<u>Data rhybuddiad a cham-drin perthynas (CARA) hyd yma:</u>

Mae 12 atgyfeiriad wedi bod i'r rhaglen CARA hyd yma. Mae 10 unigolyn wedi cwblhau'r rhaglen, mae 1 yn ymgymryd â'r rhaglen ar hyn o bryd, ac roedd 1 unigolyn arall heb fod yn bresennol.


*Cafodd yr unigolyn nad oedd yn bresennol ei gyhuddo wedi hynny, a phlediodd yn euog yn y llys.

## Sicrhau ansawdd


Mae prosesau sicrhau safonau mewnol wedi eu cwblhau ar hyn o bryd ar gyfer cam-drin domestig, treisio, stopio a chwilio, a defnyddio grym. Mae prosesau sicrhau safonau yn rhoi'r cyfle i adolygu a gwerthuso'n ansoddol effeithiolrwydd a chyfreithlondeb achosion.

### Treisio


Cychwynnodd yr adolygiad sicrhau ansawdd o ran ymchwiliadau i dreisio ym mis Medi 2024. Ers ei lansio hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026, mae 582 o achosion o dreisio wedi cael eu sicrhau o ran ansawdd. Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfraddau ymateb cadarnhaol. (Cyfran yr ymatebion a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn a ddewiswyd.)




*Ffigur 61: Sicrhau safonau mewnol achosion o dreisio – rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr.*





*Ffigur 62: Sicrhau safonau mewnol achosion o dreisio – iaith yn beio'r dioddefwr.*




*Ffigur 63: Canlyniad priodol ar gyfer sicrhau safonau mewnol achosion o dreisio wedi ei gymhwyso.*


## Cam-drin domestig

Cychwynnodd yr adolygiad sicrhau safonau achosion o gam-drin domestig ym mis Ionawr 2024. Ers ei lansio, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026, mae 2,087 o achosion o gam-drin domestig wedi cael eu sicrhau o ran ansawdd. Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfraddau ymateb cadarnhaol. (Cyfran yr ymatebion a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn a ddewiswyd.)





*Ffigur 64: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr.*

Yn ystod pedwerydd chwarter 2025–2026, roedd 2 o blith 225 (0.9%) o archwiliadau a gwblhawyd yn ystyried bod iaith beio'r dioddefwyr wedi cael ei defnyddio.





*Ffigur 65: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – iaith yn beio'r dioddefwr.*




*Ffigur 66: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – canlyniad priodol wedi ei gymhwyso.*


## Llais y plentyn

Gellir gweld gwelliannau yn nifer y digwyddiadau lle cafodd llais y plentyn ei gofnodi.




*Ffigur 67: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – llais y plentyn wedi ei gofnodi.*

Yn ogystal â deall y cydymffurfedd, o ran y nifer, mae'n bwysig deall yr ansawdd, a chaiff hyn ei gofnodi trwy ddefnyddio'r cofair AWARE.




*Ffigur 68: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – cofair AWARE.*

# Archwilio canolog a sicrwydd

## Canlyniad 16 a chrynodeb interim 16

## Report Data & Methodology

This is an interim summary report, of a further audit of 100 investigations finalised as outcome 15/16 in February 2026 and March 2026. Due to resourcing and abstraction constraints a statistically reliable sample size could not be completed in the timescales.

259 crimes were in the sample size. To be statistically reliable (**95% CI; 3% Margin of Error; 0.5 population proportion*) 208 crimes need to be audited in total (an additional 108 audits).

This audit has been completed using a new MS Lists format, with specific questions to capture the outcome 15/16 requirements as outlined within the Home Office Counting Rules (HOCR), the National Crime Recording Standard (NCRS), Home Office Outcome Framework, Victim's Code of Practice (VCOP), Force Crime Incident Recording Policy, and HMICFRS Inspection Framework (PEEL).

## Audit Compliance Ratings

The Home Office Judgement Framework outlines the following which has been adopted for this audit process:

- **95% and over:** Process appears sound – limited scope for improvement.
- **90-94.9%:** Process mostly sound – but some improvements needed.
- **80-89.9%:** Process unsound, further improvement needed.
- **79.9% and under:** Poor. Urgent and significant improvement required.

Aiming for as near to **100%** minimises organisational risk, builds public trust through effective investigation of crime, and adherence with the Victims Code of Practice.

## Key Findings

### Outcome 15 & 16 Combined (Volume 100)

| Audit Question | Overall Compliance Rating |
|---|---|
| Was the outcome applied correctly? | 81% ↑ |
| Have the suspect details been added to the suspect field on the Niche occurrence and the identity of the suspect has been accurately established? | 89% ↑ |
| Has the victim been informed of the investigation finalisation decision? | 78% ↑ |
| Compliant with all outcome requirements | 71% ↔ |

### Outcome 15

| Audit Question | Overall Compliance Rating |
|---|---|
| Was the outcome applied correctly? | 71% (65) ↑ |
| Have the suspect details been added to the suspect field on the Niche occurrence and the identity of the suspect has been accurately established? | 87% (80) ↑ |
| Has the victim been informed of the investigation finalisation decision? | 68% (59) ↑ |
| Compliant with all outcome requirements | 59% (38) ↑ |

### Outcome 16

| Audit Question | Overall Compliance Rating |
|---|---|
| Was the outcome applied correctly? | 90% (95) ↑ |
| Have the suspect details been added to the suspect field on the Niche occurrence and the identity of the suspect has been accurately established? | 92% (98) ↑ |
| Is there an auditable record that the victim is not supporting the investigation? | 90% (95) ↑ |
| Has the victim been informed of the investigation finalisation decision? | 88% (91) ↑ |
| Compliant with all outcome requirements | 81% (87) ↑ |

## Outcome 15/16: Correct Outcome Summary

Correct application of Outcomes 15 and 16 has increased from **77% (Report 2)** → **81%**. This reflects improved accuracy in applying each outcome in accordance with its definition, including confirming the presence of a named suspect, and ensuring an auditable record of the victim's non-support for Outcome 16. This increase demonstrates that officers are more consistently meeting the evidential and procedural thresholds required for each outcome, reducing the risk of misapplication, and strengthening the integrity of recorded outcomes across the force.

## Outcome 15/16: Suspect Details Summary

Accuracy in recording named suspects for Outcomes 15 and 16 continues to increase and is now at **89%** demonstrating improved compliance with the requirement to obtain suspect details, add them as an involved person on Niche, and ensure they are correctly established before applying the outcome. Where non-compliance remains, it is typically due to administrative omissions, e.g. suspects referenced in the OEL but not added as involved persons, rather than failures in investigative practice. This evidences a misunderstanding of outcome requirements and a reducing risk of mis-application.

## Outcome 15/16: Victim Contact at Investigation Finalisation

Compliance with victim finalisation updates for Outcomes 15 and 16 combined has shown sustained and measurable improvement. Combined compliance has increased from **52% (Report 1)** → **78%**, reflecting a **26%** improvement following the force wide focus on outcome recording standards. All BCU's have contributed to this improvement, and the direction demonstrated is consistently positive.

While some areas are not yet fully compliant, the remaining gaps relate primarily to recording discipline rather than operational practice. In many cases, victim contact is being completed but not documented, which limits our ability to evidence full compliance. This issue is now clearly understood, monitored, and being actively addressed.

The improvement trajectory, combined with the targeted actions now in place, provides assurance that the force has grip of the issue and is on a credible path to full compliance. The current position demonstrates substantial progress against the AFI, with clear evidence of improvement and a sustainable plan to close the remaining gap.

## Outcome 15/16: Overall compliance

Compliance with all mandatory requirements for Outcomes 15 and 16 has remained stable at **71%**. This measure reflects whether every element of the outcome definition was met, including the presence of a named suspect, accurate suspect recording on Niche as an involved person, confirmation of victim non-support for Outcome 16, and adherence to all

evidential and procedural conditions. Where non-compliance persists, it is predominantly due to administrative omissions, such as suspects referenced in the summary but not added as involved persons, rather than incorrect investigative decisions. The current position demonstrates that the force has a clear understanding of the remaining gaps and is actively addressing them through targeted audit activity and supervisory oversight.

## Outcome 16: Auditable Record Summary

Victim updates at the point of finalisation for Outcome 16 have shown a marked improvement, increasing from **64% → 88%**. This demonstrates a significant strengthening in officers' compliance with the requirement to provide a final update to victims when an investigation concludes without their support.

The uplift reflects clearer supervisory focus and improved understanding of the mandatory recording standard. Remaining non-compliance is typically due to updates being completed but not documented, rather than a failure to make contact, indicating that the underlying practice is improving and the residual risk relates primarily to recording discipline.

## Key Themes Across Both Outcomes

- Correct application continues to rise, with officers increasingly applying outcomes in line with their defined criteria (e.g. Outcome 16 auditable record confirming the victim does not support).
- Suspect recording is improving, with **89%** compliance combined. Most remaining errors are administrative (suspect named in summary but not added as an involved person).
- Victim finalisation updates show a mixed picture: Outcome 16 has improved significantly (**64% → 88%**), while Outcome 15 remains lower at **59%**. The underlying issue is mostly recording discipline, rather than missed contact.
- Full requirement compliance remains at **71%**, but all underlying factors have improved, indicating that the remaining gap is narrow and well understood.

## Driving Improvement & Assurance

The force now has clear visibility and grip of the remaining risks. Improvement activity is embedded and monitored through:

- ACC Weekly performance.
- Central Audit and Assurance auditing all crime outcomes.
- Focused supervisory intervention during finalisation reviews.
- Finalisation checklists to support accurate recording.
- Refreshed guidance issued to officers and supervisors.

## Final Summary

The force has demonstrated clear, sustained and evidenced improvement across the requirements for Outcomes 15 and 16. Correct application has increased, suspect identification and recording are now consistently high, and finalisation stage victim updates show significant uplift, particularly for Outcome 16. The remaining non-compliance is predominantly administrative in nature, such as incomplete recording on Niche OEL's, rather than failures in investigative decision making.

The risks are fully understood, monitored through ACC Weekly, DCC Monthly, and actively managed through continued Central Audit & Assurance activity, strengthened supervision, finalisation checklists and refreshed guidance.

The improvement trajectory is positive, the control measures are embedded, and the force has credible, sustainable arrangements in place.

# Arolygon barn dioddefwyr

Mae arolygon barn dioddefwyr yn agwedd allweddol ar ddeall profiadau dioddefwyr a boddhad â'r heddlu. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi allanoli'r arolygon hyn i gwmni o'r enw Opinion Research Services (ORS) ers 2023. Mae hyn wedi cynorthwyo i gynyddu nifer yr arolygon a gynhelir, a chael mwy o eglurder ar farn dioddefwyr.

Mae'r data wedi eu casglu o'r dangosfwrdd barn dioddefwyr. Y cyfnod ar gyfer y data a gasglwyd oedd rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025, a rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror 2026. Yr amserlen ar gyfer y data yw pan fydd y data wedi cael eu hadrodd yn ôl i ni gan ORS, ar ôl i'r arolygon gael eu cynnal. Felly, y dyddiad a adroddir ar gyfer y data a gyflwynir fyddai mis Medi i fis Tachwedd 2024–2025.

## Arolwg cam-drin domestig

- Cynhaliwyd 135 arolwg rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2025–2026.
- Cynhaliwyd 99 arolwg rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2024–2025.

### Cyswllt cychwynnol

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar brofiadau dioddefwyr yn ystod y cyswllt cychwynnol â'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys edrych ar foddhad o ran rhwyddineb cysylltu, y gwasanaeth yn ystod y cyswllt cychwynnol, ac a oedd y dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu yn ystod yr alwad.

Rhagfyr 2025–Chwefror 2026:

- Mae boddhad dioddefwyr, ar gyfartaledd, o ran rhwyddineb a gwasanaeth yn ystod y cyswllt cychwynnol, yn 75.6% (gostyngiad o 0.2% mewn bodlonrwydd, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).
- Roedd boddhad ar ei uchaf ym mis Chwefror 2026, ac roedd 86.5% o ymatebion y dioddefwyr yn gadarnhaol.

Rhagfyr 2024–Chwefror 2025:

- Mae boddhad o ran rhwyddineb cyswllt cychwynnol, ar gyfartaledd, yn 75.8%.
- Roedd boddhad o ran y gwasanaeth a gafwyd yn ystod y cyswllt cychwynnol, ar gyfartaledd, yn 73.7%.
- Roedd boddhad ar ei uchaf ym mis Ionawr 2025, ac roedd 92.3% o'r dioddefwyr yn fodlon.

### Cyswllt parhaus

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y cyswllt parhaus rhwng y swyddogion heddlu a'r dioddefwr yn ystod eu hachos.

Rhagfyr 2025–Chwefror 2026:

- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar eu triniaeth gan swyddogion 85.2% o'r amser.
- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n llai bodlon â pha mor dda y cawsant eu hysbysu, sydd â boddhad cyffredinol o 63.7% yn ystod y cyfnod hwn.

Rhagfyr 2024–Chwefror 2025:

- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar eu triniaeth gan swyddogion 85.2% o'r amser.

- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n llai bodlon â pha mor dda y cawsant eu hysbysu, sydd â boddhad cyffredinol o 63.7% yn ystod y cyfnod hwn.

*A ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon ar y camau a gymerwyd gan yr heddlu?*

- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 75.8% o'r amser yn ystod y cyfnod 2025–2026, sy'n gynnydd (5.9%), o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, sef 2024–2025, pan oedd boddhad yn 69.9%.

## Gwasanaethau

Mae'r adran hon yn casglu data ynglŷn â boddhad dioddefwyr ynghylch gwasanaethau cymorth, a pha wybodaeth a gynigiwyd i ddioddefwyr gan swyddogion heddlu.

*A wnaeth unrhyw un o'r swyddogion heddlu neu staff y buoch chi mewn cysylltiad â nhw gynnig gwybodaeth i chi am y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael i chi?*

- Yn ystod mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror 2026, cynigiwyd gwybodaeth i ddioddefwyr am wasanaethau cymorth 82.2% o'r amser. Mae hwn yn gynnydd o 9.5%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; (cynigiwyd gwybodaeth i 72.7% yn ystod mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025).

- Rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025 roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 100.0% o'r amser â'r gwasanaethau cymorth a gafwyd gan Goleudy.* *(Am fod Goleudy wedi ei allanoli, nid yw data o fis Mawrth 2025 ymlaen yn cofnodi boddhad dioddefwyr â'r gwasanaethau a ddarperir gan Goleudy).

## Arolwg stelcio

  - Cynhaliwyd 14 arolwg rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2025–2026.
  - Cynhaliwyd 31 arolwg rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2024–2025.

## Cyswllt cychwynnol

Rhagfyr 2025–Chwefror 2026:

- Mae boddhad o ran rhwyddineb cyswllt cychwynnol, ar gyfartaledd, yn 78.6% (gostyngiad o 2.0%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).
- Roedd boddhad ar ei uchaf ym mis Ionawr 2026, ac roedd 100.0% (5) o ddioddefwyr yn fodlon.
- Roedd y boddhad ar gyfer y gwasanaeth a gafwyd yn ystod y cyswllt cychwynnol, ar gyfartaledd, yn 85.7% (cynnydd o 1.8%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

Rhagfyr 2024–Chwefror 2025

- Mae boddhad o ran rhwyddineb cyswllt cychwynnol, ar gyfartaledd, yn 80.6%.
- Roedd boddhad ar ei uchaf ym mis Rhagfyr 2024, gyda boddhad dioddefwyr yn 90.9% (11).
- Roedd boddhad o ran y gwasanaeth a gafwyd yn ystod y cyswllt cychwynnol yn 83.9%.

## Cyswllt parhaus

*A ydych chi'n fodlon ar ba mor dda y cawsoch chi eich hysbysu am gynnydd?*

- Roedd boddhad dioddefwyr o ran pa mor dda yr oeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwybod am gynnydd yn 64.3% (rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror

2026), sy'n gynnydd o 9.5%, o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, a oedd â boddhad dioddefwyr o 54.8%.

## Arolwg troseddau

- Cynhaliwyd 100 arolwg rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2025–2026.
- Cynhaliwyd 102 arolwg rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2024–2025.

## Cyswllt cychwynnol

*A ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r gwasanaeth a gawsoch gan yr aelod(au) cyntaf o staff y gwnaethoch chi roi gwybod iddynt am eich digwyddiad yn wreiddiol?*

Rhagfyr 2025–Chwefror 2026:

- Mae boddhad dioddefwyr o ran y gwasanaeth a gafwyd yn 78.0%, gyda Rhagfyr 2025 â'r cyfraddau uchaf o ran boddhad, sef 80.6%.
- At ei gilydd, cynyddodd y cyfraddau cadarnhaol cyfartalog 9.4%, o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Rhagfyr 2024–Chwefror 2025:

- Mae boddhad dioddefwyr o ran y gwasanaeth a gafwyd yn 69.6%, ac mae Chwefror 2025 â'r cyfraddau uchaf o ran boddhad, sef 73.8%.

## Profiad

*Gan ystyried y profiad cyfan, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd ar gyfer yr achos gan yr heddlu?*

- Rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Chwefror 2026, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 68.0%, ar gyfartaledd.
- Rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 65.7%, ar gyfartaledd.

## Gwasanaethau

*A wnaeth unrhyw un o'r swyddogion heddlu neu staff y buoch chi mewn cysylltiad â nhw gynnig gwybodaeth i chi am y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael i chi?*

- Yn 2025–2026, roedd boddhad dioddefwyr â'r wybodaeth am wasanaethau cymorth yn 59.0%. Cynyddodd hyn (53.9%) 5.1%, o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol.

*A ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon ar y cymorth a gawsoch chi gan y gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr?*

- Roedd dioddefwyr yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan Goleudy 100.0% o'r amser rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Chwefror 2025.*

  **Am fod Goleudy wedi ei allanoli, nid yw data o fis Mawrth 2025 ymlaen yn cofnodi boddhad dioddefwyr â'r gwasanaethau a ddarperir gan Goleudy.*

# Ymgysylltu â dioddefwyr

## A ydyw dioddefwyr yn ymgysylltu ac yn cymryd rhan drwy gydol eu taith cyfiawnder troseddol?

- Cynhaliwyd gweithdy athreuliad gan ddioddefwyr ym mis Mawrth 2026. Cydlynwyd hyn gan SCHTh ar ôl i gyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ym mis Tachwedd nodi, yn chwarter cyntaf 2025–2026, o'r holl achosion a stopiwyd ledled Cymru, fod 3.5% ohonynt oherwydd athreuliad gan ddioddefwyr. Yn ardal Heddlu Dyfed-Powys roedd hyn yn cyfrif am 2.7% yn y Llysoedd Ynadon, a 4.7% yn Llysoedd y Goron. Roedd angen darn o waith cydweithredol i ganolbwyntio ar y maes hwn.
- Cynhaliwyd y gweithdy gan Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a chafwyd presenoldeb da gan gynrychiolwyr o'r rheini a grybwyllwyd uchod, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, SCHTh, a gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a gomisiynwyd.
- Bu'r gweithdy yn canolbwyntio ar y canlynol:
  - Archwiliad dwfn – mapio taith y dioddefwr o'r adroddiad i'r euogfarn. Pwy sy'n gwneud beth ar ba gam, ac a ydyw'n effeithiol? Nodi unrhyw fylchau.
  - Mesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr – safleoedd tystiolaeth o bell, gan sicrhau eu bod yn y lleoliadau cywir, a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.
  - Erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth.
- Roedd yr adborth o'r gweithdy yn gadarnhaol, ac roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod rhagor o gamau y gellir eu cymryd i wella profiad dioddefwyr.
- Mae cynllun gweithredu 19 pwynt wedi ei ddatblygu i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Mae hyn yn cynnwys ymateb cydweithredol gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a gofal tystion. Bydd gweithdai pellach yn cael eu trefnu maes o law er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

## Pam mae dioddefwyr yn datgysylltu o'u taith cyfiawnder troseddol?

Rhwng chwarter cyntaf a thrydydd chwarter 2025–2026, gwnaeth 23 o ddioddefwyr a oedd yn cael eu cynorthwyo gan gynghorydd annibynnol ar drais rhywiol dynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol.

Rhwng chwarter cyntaf a thrydydd chwarter 2025–2026, gwnaeth 15 o ddioddefwyr a oedd yn cael eu cynorthwyo gan gynghorydd annibynnol ar drais domestig dynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol.

## A ydyw Heddlu Dyfed-Powys yn dysgu o ganfyddiadau gweithgarwch ymgysylltu a chraffu ar ddioddefwyr?

Mae aelodau Panel Cynghori ar gyfer Goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru bellach yn mynychu cyfarfodydd Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn chwarterol, lle maent yn ymgysylltu â phartneriaid cyfiawnder troseddol a darparwyr

gwasanaethau cymorth ynghylch eu profiadau a gwaith y panel. Mae hyn wedi arwain at gamau gweithredu yn cael eu pennu gan gadeirydd yr is-grŵp; er enghraifft, adolygiad mewnol gan Heddlu Dyfed-Powys o brosesau'r Cynllun Datgelu Trais Domestig, ac adolygiad o achos penodol pan gafwyd adborth negyddol ynghylch camau gweithredu'r heddlu o ganlyniad i gais Cynllun Datgelu Trais Domestig.

# Cod Ymarfer i Ddioddefwyr

## A ydyw Heddlu Dyfed-Powys yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr?

Mae adroddiad trydydd chwarter 2025–2026 y gwasanaethau i ddioddefwyr yn amlinellu rhai pryderon mewn perthynas â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

*Hawl 3 – Cael gwybodaeth wrth adrodd am y drosedd*

Mae tystiolaeth anecdotaidd gan weithwyr achos yn awgrymu bod dioddefwyr yn dal i gael problemau o ran cael yr wybodaeth gywir ar ôl adrodd a chael diweddariadau amserol. Fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol, bu gwelliant ar draws ardal yr heddlu o ran ymateb swyddogion i weithwyr achos Cymorth i Ddioddefwyr, yn enwedig wrth gynnal yr asesiadau risg dioddefwyr newydd, a cheisio cyngor ynghylch marcwyr ac ati.

*Hawl 6 – Cael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad*

Mae gweithwyr achos yn parhau i adrodd am broblemau parhaus sy'n ymwneud â Hawl 6, yn benodol ynghylch ansawdd, cywirdeb, ac amseroldeb gwybodaeth a ddarperir i ddioddefwyr. Nid yw contractau dioddefwyr y cytunwyd arnynt rhwng yr heddlu a dioddefwyr—sydd â'r bwriad o nodi'n glir yr amlder a'r dull y cytunwyd arnynt ar gyfer diweddariadau—yn cael eu dilyn yn gyson.

Mae pryderon parhaus hefyd pan fo gwybodaeth anghywir wedi ei chyfleu i ddioddefwyr, megis hysbysu dioddefwyr bod cyhuddiad wedi digwydd pan fo'r achos yn dal i gael ei adolygu.

*Hawl 4 – Cael eich atgyfeirio i wasanaethau sy'n cynorthwyo dioddefwyr, a chael gwasanaethau a chymorth wedi eu teilwra i'ch anghenion*

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at achosion pan fydd gwybodaeth ar goll, ac felly nid oedd Cymorth i Ddioddefwyr yn gallu cysylltu â'r dioddefwr i gynnig eu gwasanaeth.

| Chwarter | Gwybodaeth ar goll – cais wedi ei anfon at Heddlu Dyfed-Powys |
|---|---|
| Chwarter 1 – 2025–2026 | 354 |
| Chwarter 2 – 2025–2026 | 425 |
| Chwarter 3 – 2025–2026 | 360 |

## A ydyw sefydliadau cyfiawnder troseddol yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr?

Trafodir cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr yn fanwl yn Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Yn absenoldeb metrigau cenedlaethol, mae gwaith yn mynd rhagddo i gasglu data sydd ar gael ar hyn o bryd gan bartneriaid, a all gynorthwyo i asesu cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

### A ydyw Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i hyrwyddo hawliau dioddefwyr a thystion ym mhob cam o'u taith cyfiawnder troseddol?

Caiff hyrwyddo hawliau dioddefwyr / tystion ei drafod yn rheolaidd gan Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, lle mae cynrychiolwyr o sefydliadau ar draws y system cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau cymorth, yn cytuno bod yn rhaid i ddeunyddiau negeseuon / hyrwyddo fod yn gyson. Defnyddir deunyddiau cyfathrebu canolog at y diben hwn.

### A ydyw sefydliadau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth yn cymryd camau i hyrwyddo hawliau dioddefwyr ym mhob cam o'u taith cyfiawnder troseddol?

Mae hawliau dioddefwyr yn cael eu trafod yn rheolaidd yn Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, gyda ffocws penodol ar fesurau arbennig a safleoedd tystiolaeth o bell.

Mae hyrwyddo'r Cod Dioddefwyr, safleoedd tystiolaeth o bell, a gwaith ailfrandio'r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr i gyd wedi eu rhannu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol SCHTh. Cafodd gwaith ailfrandio'r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr sylw gan nifer o gyfryngau yn ystod mis Medi 2025.

### A ydyw ein partneriaid cyfiawnder troseddol a'n gwasanaethau cymorth yn cynnal y safonau gofal a nodir yn Siarter y Tystion?

Gofynnwyd cwestiynau i bartneriaid cyfiawnder troseddol yn Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ynghylch eu gwaith monitro i ganfod a ydyw'r safonau gofal yn cael eu cynnal. Yn anffodus, mae gweithgarwch monitro yn y maes hwn yn gyfyngedig, a bydd yn cael ei ailystyried yn rheolaidd.

## Atgyfeiriadau

Data atgyfeirio gan Cymorth i Ddioddefwyr. Mae angen cymharu'r rhain â chyfanswm nifer y dioddefwyr a aseswyd gan yr heddlu o dan y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

| Chwarter 1: | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau a ymestynnwyd | 1,569 |
| Nifer yr atgyfeiriadau safonol | 1,485 |
| Nifer yr atgyfeiriadau pan nad yw'r statws Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi ei nodi | 4 |

| Chwarter 2: | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau a ymestynnwyd | 1,739 |
| Nifer yr atgyfeiriadau safonol | 1,895 |
| Nifer yr atgyfeiriadau pan nad yw'r statws Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi ei nodi | 1 |

| Chwarter 3: | Cyfanswm |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau a ymestynnwyd | 1,324 |
| Nifer yr atgyfeiriadau safonol | 930 |
| Nifer yr atgyfeiriadau pan nad yw'r statws Cod Ymarfer i Ddioddefwyr wedi ei nodi | 4 |

# Cwynion

## Cwynion Heddlu Dyfed-Powys

Mae rhagor o wybodaeth ar ddata cwynion Heddlu Dyfed-Powys yn y ddogfen briffio mewnol.

## Cwynion SCHTh

- Cafodd SCHTh 53 adolygiad cwyn –
  - Anfoddhad â'r ffordd y cafodd ymchwiliadau eu trin, a/neu eu canlyniad yw'r prif thema o hyd.
  - Mae plismona bro hefyd yn duedd sy'n dod i'r amlwg, yn benodol o ran ymdrin ag anghydfodau cymdogaethau.
  - Cadarnhawyd 11 o adolygiadau, a bu cynnydd yn y nifer a gadarnhawyd oherwydd cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.
- Cofnodwyd 118 o gwynion a gafwyd fel 'Cwyn yr Adran Safonau Proffesiynol', sy'n cyfateb i 13% o'r holl ohebiaeth a gafodd y SCHTh yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r prif themâu yn cynnwys y canlynol:
  - Anfoddhad ag arestiad 6% (7)
  - Trin galwadau 5% (6)
  - Diogelu plant / cam-drin plant yn rhywiol / camfanteisio'n rhywiol ar blant 5% (6)
  - Cam-drin domestig / ar sail rhywedd 7% (8)
  - Arfau saethu 2% (2)
  - Twyll 2% (2)
  - Troseddau casineb 1% (1)
  - Ymchwiliad (ymdrin a/neu ganlyniad) 40% (47)
  - Iechyd meddwl 2% (2)
  - Plismona bro 3% (4)
  - Chwilio trwy eiddo 1% (1)
  - Digwyddiad trefn gyhoeddus 2% (2)
  - Ffyrdd / traffig 3% (3)
  - Anhysbys 8% (10)
  - Trais yn erbyn menywod a merched – ymdrin ag anfoddhad 4% (5)
  - Dim 3% (3)

Bu cynnydd yn nifer yr adolygiadau cwynion gan SCHTh sy'n cael eu cynnal oherwydd cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, yn benodol mewn perthynas â Hawl 4: Cael eich atgyfeirio i wasanaethau sy'n cynorthwyo dioddefwyr, a chael gwasanaethau a chymorth wedi eu teilwra i'ch anghenion; a Hawl 6: Cael gwybodaeth am yr ymchwiliad a'r erlyniad.


Cadarnhawyd dau adolygiad, ac un adolygiad pan benderfynodd yr unigolyn a oedd yn ymdrin â'r gŵyn fod y gwasanaeth yn annerbyniol, a bod gwersi wedi eu nodi, yr oedd yr adolygydd yn cytuno â hwy.


*A ydyw nifer y materion / pryderon / themâu sy'n codi dro ar ôl tro y rhoddir gwybod amdanynt gan ddioddefwyr yn lleihau?*

Yn 2024–2025 cafodd y SCHTh 63 adolygiad cwyn, o'i gymharu â'r 56 a gafwyd ar gyfer 2025–2026.
Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr adolygiadau sy'n cael eu cynnal oherwydd cydymffurfedd â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr, yn benodol hawliau 4 a 6.

*Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu*

- Mae data Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar gyfer 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025 yn dangos y canlynol ar gyfer ardal Heddlu Dyfed-Powys:
  - Cofnodwyd 819 o gwynion
  - Y categori uchaf oedd 'Cyflawni dyletswyddau a gwasanaeth' *(penderfyniadau, camau gweithredu'r heddlu yn dilyn cyswllt, lefel gyffredinol y gwasanaeth)*, sef 613 (52%) o'r honiadau. Mae hyn yn dilyn y tueddiadau heddlu cenedlaethol a thueddiadau'r heddlu mwyaf tebyg.
    - Mae hwn yn nifer uwch na'r un cyfnod y llynedd (467) ond mae'n cynrychioli cyfran is o'r honiadau (56% ar gyfer mis Ebrill–mis Rhagfyr 2024). Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2025 gwelwyd cynnydd yng nghyfran yr honiadau yn ymwneud â 'phwerau, polisïau, a gweithdrefnau'r heddlu'.





Force (% of allegations logged)
Force
SPLY
50 %
40 %
30 %
20 %
10 %
0 %
52 %
56 %
24 %
21 %
12 %
12 %
3 %
3 %
3 %
3 %
Delivery of duties and service
Police powers, policies and procedures
Individual behaviours
Handling of or damage to property/ premises
Access and/or disclosure of information

## Reviews received


01 April 2025 - 31 December 2025 (Q3 2025/26)

This section presents data on the number of reviews received about this force by the IOPC and by the local policing body. The charts enable you to see the proportion of each review type being received by the two bodies. The IOPC handle the majority of reviews where the complaint was handled by investigation. For information on when the IOPC should be the review body, please see our Statutory Guidance

| LPB reviews | Investigation | Non-investigation |
|---|---|---|
| Force | 0 | 36 |
| SPLY | 0 | 47 |
| MSF Average | 1 | 55 |
| National | 220 | 3,562 |




| IOPC Reviews | Investigation | Non-investigation |
|---|---|---|
| Force | 5 | 13 |
| SPLY | 4 | 7 |
| MSF Average | 5 | 13 |
| National | 703 | 1478 |




Ffynhonnell: Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu: Bwletin gwybodaeth am gwynion Heddlu Dyfed-Powys – trydydd chwarter 2025–2026 | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu